

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494 (YR WYDDGRUG, SIR Y FFLINT) (GWAHARDD CERBYDAU A BEICIAU DROS DRO) 201-

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru ymhen, nid llai na saith diwrnod ar ôl dyddiad yr Hysbysiad hwn, yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae angen y Gorchymyn arfaethedig i ganiatáu i waith cynnal a chadw cylchol ar y rhwydwaith gael ei wneud gan y gweithlu mewn modd diogel ar Gefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Birkenhead (A494) (y cefirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), yn yr Wyddgrug yn Sir y Fflint.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad, y codir arwyddion priodol ar ei gyfer, yn dod i rym gyntaf am 19:00 o'r gloch ar 21 Mehefin 2010 gan barhau mewn grym yn unol â'r hyn a nodir gan arwyddion traffig nes bod y gwaith wedi'i gwblhau, y disgwylir iddo fod erbyn 16 Gorffennaf 2010 neu nes i'r arwyddion traffig dros dro gael eu symud ymaith yn barhao. Disgwylir i'r gwaith gael ei wneud rhwng 19:00 o'r gloch a 06:00 o'r gloch dros ddwy noson o fewn y cyfnod a enwyd er mwyn lleihau'r afonyddwch i'r cyhoedd sy'n teithio.

Effeith y Gorchymyn fydd gwahardd pob cerbyd, heblaw cerbydau'r gwasanaethau brys, a phob beic o'r darn hwnnw o'r gefnffordd a bennif yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Mae'r llwybrau amgen fel y maent wedi'u disgrifio yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Er mai yn ystod y dyddiadau a bennwyd uchod yn unig y disgwylir i'r Gorchymyn weithredu, bydd yn parhau'n ddilys am uchafswm o chwe mis rhag ofn y bydd angen ad-drefnu amserlen y gwaith neu y bydd angen gwaith dilynol oherwydd amgylchiadau annisgwyl.

M D BURNELL

Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth 3

ATODLEN 1

Darn o Gefnffordd yr A494 yn yr Wyddgrug, yn Sir y Fflint.

Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A494 o'r fynedfa tua'r gogledd a'r allanfa tua'r de ar Gylchfan New Brighton hyd at y fynedfa tua'r de a'r allanfa tua'r gogledd ar Gylchfan Wylfa.

ATODLEN 2

Llwybrau Amgen.

Y llwybr amgen i gerbydau a beiciau tua'r de y bydd y gwaharddiad yn effeithio arnynt yw drwy'r ail allanfa oddi ar Gylchfan New Brighton i'r A5119, wedyn yr allanfa gyntaf wrth Gylchfan y Modurdy i'r A541, wedyn yr allanfa gyntaf wrth Gylchfan Tesco tuag at Gylchfan Wylfa A494 i ailymuno â'r gefnffordd. I'r gwrrthwneb y bydd y llwybr amgen i gerbydau a beiciau tua'r gogledd y bydd y gwaharddiad yn effeithio arnynt.

GELLIR CAEL COPI O'R HYSBYSIAD HWN MEWN PRINT BRASACH ODDI WRTH IS-ADRAN CYNLLUNIO A LLYWODRAETHU TRAFNIDIAETH 3, TRAFNIDIAETH AC ADFYWIO STRATEGOL, LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU, PARC CATHAYS, CAERDYDD CF10 3NQ.

THE A494 TRUNK ROAD (MOLD, FLINTSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES AND CYCLES) ORDER 201-

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers propose, in not less than 7 days from the date of this Notice, to make an Order under Section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The proposed Order is necessary to allow for cyclic maintenance of the network to be undertaken by the workforce in a safe manner on the Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road (A494) (hereinafter referred to as "the trunk road"), at Mold in Flintshire.

It is expected that the prohibition, which will be signed accordingly, will first come into operation at 19:00 hours on 21 June 2010 and will remain in force as indicated by traffic signs until the works are completed, expected to be by 16 July 2010 or until the temporary traffic signs are permanently removed. It is expected that the works will take place between 19:00 hours and 06:00 hours over 2 nights within the stated period to minimise disruption to the travelling public.

The effect of the Order will be to prohibit all vehicles, other than emergency service vehicles, and cycles from that length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Notice.

The alternative routes are as described in Schedule 2 to this Notice.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 6 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work be required due to unforeseen circumstances.

M D BURNELL

Transport Planning and Governance Division 3

SCHEDULE 1

Length of the A494 Trunk Road at Mold, in Flintshire.

That length of the A494 Trunk Road from the northbound entry and southbound exit of the New Brighton Roundabout to the southbound entry and northbound exit of the Wylfa Roundabout.

SCHEDULE 2

Alternative Routes.

The alternative route for southbound vehicles and cycles affected by the prohibition is via the second exit off the New Brighton Roundabout onto the A5119, then the first exit at The Garage Roundabout onto the A541, then the first exit at the Tesco Roundabout to wards the A494 Wylfa Roundabout to rejoin the trunk road. The alternative route for northbound vehicles and cycles affected by the prohibition will be vice versa.

A COPY OF THIS NOTICE IN LARGER PRINT CAN BE OBTAINED FROM TRANSPORT PLANNING AND GOVERNANCE DIVISION 3, TRANSPORT AND STRATEGIC REGENERATION, WELSH ASSEMBLY GOVERNMENT, CATHAYS PARK, CARDIFF CF10 3NQ.



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk